

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd Nos Fawrth, 3 Ebrill 2019 yn Canolfan Y Fron

Minutes of the Cemeteries & Property Committee held Tuesday, 3 March 2019 at Canolfan Y Fron

Yn bresennol - Present

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones; Cyng. Dyfed Williams

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / Council Admin & Finance Manager.

Dai Lloyd Evans, Cyfawyddwr Canolfan y Fron

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Pwyllgor sef Cyng. Clive Bayley. Croeaswodd pawb i'r cyfarfod. Aeth ymlaen at y rhaglen yn syth.

The meeting was opened by the Chairman of the Committee Cllr. Clive Bayley, He welcomed all who attended and proceeded straight onto the evenings business.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Helen Hughes; Cyng. Alan Patterson;

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol.

No declaration of personal or prejudicial interest was made by those present

4 Cais gan Canolfan Y Fron – Defnydd y Cae Pel-droed / *Application from Canolfan y Fron – Use of Football Field*

Gwahodwyd cynrychiolwyr o'r Ganolfan i drafod ei cais i gael defnydd o'r cae i sicrhau ffrwd newydd o incwm l'r ganolfan

Dai Lloyd Evans oedd yn cynrychioli y Ganolfan.

Nodwyd gan DLE –

Y ganolfan angen cynhyrchu incwm - targed blyneddol o £100,000

I gyrraedd y targed rhaid edrych ar bob math o weithgareddau

Un syniad yw hybu defnydd o'r ganolfan trwy wahodd grwpiau fel sgowntiaid, ysgolion a chadéts i ddefnyddio'r Ganolfan ac i gampio ar y cae. Byddai'r campwyr yn defnyddio adnoddau y Ganolfan megis toiledau a cawodydd.

Ysgol Dyffryn Nantlle wedi mynegi diddordeb.

Y syniad yn ffrwd incwm newydd 'r Ganolfan

Sylwadau aelodau –

AWJ – o'r farn y byddai rhaid cael hawl cynllunio oherwydd bod y cais yn newid defnydd o'r cae. Byddai rhaid ystyried yswiriant, a gosod amodau clir petai y cais yn cael ei ganiatáu. 'Roedd rhaid hefyd ystyried materion amgylcheddol.

Barn yr aelodau oedd y byddai disgwyl i'r Ganolfan gyflwyno unrhyw gais cynllunio. Mae'n debyg fodd bynnag y byddai cymdogion yn gwrthwynebu. 'Roedd yr aelodau oll, fodd bynnag, yn cytuno fod angen cefnogi unrhyw fenter gan y Ganolfan sydd yn creu ffrwd newydd o incwm.

Cafwyd cefndir gan DLE o'r cais a'i cyflwynwyd i'r loteri i ddatblygu'r cae a throedd oddi fewn y pentref.

Fe wnaeth DLE adael y cyfarfod am 7:45. Rhoddwyd gair ddiolch iddo gan y Cadeirydd

Argymhellion i'r Cyngor-

- i) Fod y Cyngor yn disgwyl i'r Ganolfan gyflwyno cais cynllunio ar gyfer newid defnydd.***
- ii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor hwn i ystyried yr opsiynau a cynnal trafodaethau pellach gyda'r Ganolfan os bydd y cais cynllunio yn llwyddo***

Recommendation to Council-

- i) For the Council to expect the Ganolfan to submit any planning application for change of use of the field.***
- ii) For the Council to ask this Committee to consider all options and to hold further discussion with the Ganolfan should the planning application succeed.***

5 Mynedfa Cae Pêl-droed Y Fron / Access to Y Fron Football Field

Bu i'r aelodau ymweld y safle cyn cychwyn y cyfarfod.

Roedd yn amlwg fod angen giât newydd. Y giât bresennol wedi malu.

Trafodwyd y math o giât fyddai'n addas.

Cytunwyd fod angen dwy giât, un bach ac un mawr - y giât fawr wedi ei gau gyda chlo ar y pin yn y ddaear gyda'r giât fach yn un gyda chlicied hawdd i'w agor ac i gau .

Nodwyd fod defaid yn dod dros y wal o gae chwarae y Cyngor Sir. Bydd rhaid ystyried i'r dyfodol gosod ffens ar ben y wal. Nodwyd fod giât y cae chwarae yn ddiffygiol a bod defaid yn cael mynediad hawdd i'r cae. Dywedodd AWJ y byddai yn ymweld y safle.

Argymhellion i'r Cyngor- Fod y Cyngor yn blaenoriaethu'r gwaith fel y nodwyd ac yn cyfarwyddo'r rheolwr i geisio am dri phris.

Recommendation to Council – For the Council to prioritize the work as noted above and direct the Manager to seek three estimates.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:00 yr hwyr / Meeting closed at 7.50pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	